**EITEM AR YR AGENDA: 12**

# AWDURDOD TÂN AC ACHUB GOGLEDD CYMRU

**17 Mawrth 2014**

## PAPUR GWYN DILEU TRAIS YN ERBYN MENYWOD, CAM-DRIN DOMESTIG A THRAIS RHYWIOL

**Adroddiad gan Dawn Docx, Dirprwy Brif Swyddog Tân**

## Diben yr Adroddiad

1 Rhoi gwybod i'r Aelodau am hynt y Bil uchod, ei oblygiadau i'r Awdurdod Tân ac Achub, a'r camau a gymerir i gyflawni'r cyfrifoldebau hynny.

## Cefndir

2 Er mwyn hyrwyddo nodau'r Bil uchod, cynhaliwyd y Gynhadledd Cymunedau Diogelach yng Nghaerdydd ar 13 Chwefror gan y Sefydliad Tai Siartredig. Y prif thema oedd rôl darparwyr tai yn mynd i'r afael â cham-drin domestig a thrais rhywiol yn erbyn menywod, ynghyd â mynd i'r afael ag ymddygiad gwrthgymdeithasol.

3 Roedd y gynhadledd yn tynnu sylw at y ffaith fod trais yn erbyn menywod (a dynion) a cham-drin domestig yn rhywbeth sy'n digwydd ar raddfa eang ymhob rhan o Gymru a'r Deyrnas Unedig, a dywedir mai dyma'r un peth sy'n lladd y nifer fwyaf o fenywod rhwng 19 a 44 mlwydd oed. Ar gyfartaledd, mae dioddefwyr cam-drin domestig a thrais yn cael 35 o ymosodiadau neu achosion o gam-drin cyn iddynt ddweud wrth yr heddlu. Mae trais a cham-drin yn aml yn cyd-fynd â phroblemau gwrthgymdeithasol ehangach, ynghyd â thlodi o ran arian, addysg ac iechyd.

## Gwybodaeth

## Dyfodiad y Bil

4 Lesley Griffiths AC roddodd yr anerchiad Gweinidogol agoriadol, ac fe wnaeth hi gynnwys y diweddaraf ar hynt y Bil Rhoi Terfyn ar Drais yn Erbyn Menywod a Cham-drin Domestig (Cymru) sydd wrthi'n mynd drwy'r Cynulliad Cenedlaethol.

5 Ymgynghorwyd ynghylch y Bil ar ddiwedd 2012/dechrau 2013, bydd yn dod i rym yn haf 2014, a bydd yn cynnwys gofynion newydd ar gyfer landlordiaid, awdurdodau lleol a sefydliadau sy'n bartneriaid iddynt, gan gynnwys yr awdurdodau tân ac achub.

## Goblygiadau a Chyfleoedd

6 Amlinellodd y Gweinidog feysydd o ddiddordeb a lle y bydd y Bil yn gosod dyletswyddau newydd ar sefydliadau. Roedd y rhain yn cynnwys rôl arweinwyr sefydliad - ar bob lefel, codi ymwybyddiaeth yn y gweithle ymhlith gweithwyr, darparu hyfforddiant ar gyfer pob aelod o'r staff yn y gweithle o ran ymwybyddiaeth bersonol a phroffesiynol, a Phrotocolau Rhannu Gwybodaeth/Cytundebau Datgelu Data. Mae i bob un o'r rhain oblygiadau ar gyfer yr ATA a'i bartneriaid.

7 Erbyn hyn, mae Protocolau Rhannu Gwybodaeth blaengar yn y Gwasanaeth Tân ac Achub, ynghyd â Memoranda Cyd-ddealltwriaeth sy'n cael eu hadolygu'n aml.

8 Mae nifer sylweddol o'n gweithwyr yn dod i gysylltiad rheolaidd ag aelodau o'r cyhoedd wrth wneud eu gwaith, a hynny yn aml yng nghartrefi'r bobl eu hunain. Bydd yn hanfodol darparu hyfforddiant a datblygiad priodol, ynghyd â chreu a mireinio systemau effeithiol rhwng sefydliadau ar gyfer rhannu gwybodaeth berthnasol (a'i rhoi ar waith).

9 Mae hyfforddi a chodi ymwybyddiaeth yn gyfle i gael dull ar gyfer Cymru gyfan, ac i ddatblygu pecynnau sy'n gysylltiedig â Learn Pro (sef y system e-ddysgu a ddefnyddir gan y Gwasanaeth fel rhan o'i waith hyfforddi a datblygu). Mae cyfle hefyd i rannu'r datblygiad, neu o leiaf yr hyn sydd yn y pecynnau hyn, gydag asiantaethau eraill sy'n bartneriaid inni.

## Camau Gweithredu

10 Pan gyhoeddir y Bil, bydd y Pwyllgor Lleihau Risgiau Cymunedol Cymru gyfan yn cynnal adolygiad llawn ohoni er mwyn llunio rhestr derfynol o oblygiadau a chamau gweithredu. Bydd y rhain yn cynnwys:

- dull yn dilyn arweinwyr i gefnogi a gweithredu
- adolygu polisi presennol y sefydliad yn unol â'r Bil
- adolygu'r Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth a'r protocol rhannu gwybodaeth/cytundebau datgelu data er mwyn sicrhau eu bod yn cael eu cymhwyso'n gywir yng ngoleuni'r Bil
- Pwyllgor Pobl a Sefydliadau Cymru gyfan i lunio'r pecyn(nau) hyfforddiant ac ymwybyddiaeth ar gyfer gwahanol lefelau ac anghenion yn y sefydliad
- cysylltiadau â phartneriaid allanol i ddarparu cysondeb mewn dulliau ar y cyd rhwng sefydliadau, yn ogystal â chael, o bosibl, arbedion maint wrth lunio a chaffael deunyddiau cyffredin.

## Argymhellion

11 Gofynnir i'r Aelodau nodi:

(i) cynnwys yr adroddiad, ei oblygiadau i'r Awdurdod Tân ac Achub, a'r amseriadau sy'n gysylltiedig â'r Bil;

(ii) y gwaith sy'n mynd ymlaen drwy Bwyllgor Lleihau Risgiau Cymunedol Cymru gyfan.